

General  
Pharmaceutical  
Council

---

# Ymgynghoriad ar safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol technegwyr fferyllol





Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **[communications@pharmacyregulation.org](mailto:communications@pharmacyregulation.org)** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2016

# Cynnwys

Ynglŷn â'r CFFC .....	5
Rhagair .....	6
Datblygu'r safonau.....	7
Cefndir.....	10
Ein hymagwedd tuag at ran 1: safonau IET ar gyfer technegwyr fferyllol - deilliannau dysgu.....	14
Ein hymagwedd tuag at ran 2: safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau IET .....	16
Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynol technegwyr fferyllol .....	17
Rhan 1: deilliannau dysgu .....	17
Rhan 2: Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau IET .....	23
Newidiadau i'r meini prawf ar gyfer cofrestriad fel technegydd fferyllol .....	29
Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad.....	30
Cwestiynau'r ymgynghoriad.....	34
Monitro cydraddoldeb .....	38
Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u coladu .....	41

## Ynglŷn â'r CFFC

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFFC) yw'r rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yn Lloegr, Yr Alban a Chymru. Ein gwaith yw diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau o'r cyhoedd drwy gynnal safonau ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae ein prif waith yn cynnwys:

- gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr, technegwyr fferyllol a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a'u hyfforddiant
- cadw cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu bodloni drwy gydol eu gyrfa
- ymchwilio pryderon nad yw gweithwyr proffesiynol fferyllol yn bodloni ein safonau, a gweithredu i gyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fod hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion
- cynnal arolygiadau ar fferyllfeydd er mwyn gwirio eu bod yn bodloni ein safonau

### Rhagair

Mae disgwyliadau cynyddol ar bawb sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal - yn cynnwys fferylliaeth - i roi profiadau a chanlyniadau o ansawdd gwell i gleifion a'r cyhoedd.

Mae ein Cynllun Strategol (2017-20) yn amlinellu ein nod i ddefnyddio ein grymoedd rheoleiddio i gefnogi a gwella darpariaeth gofal diogel ac effeithiol ac i gynnal ymddiriedaeth mewn fferylliaeth. Un o'r ffyrdd y bwriadwn wneud hyn yw drwy barhau i wneud yn siŵr bod gan y tîm fferyllol y wybodaeth angenrheidiol sydd ei hangen arno, a'i fod yn dangos yr agweddau a'r ymddygiadau angenrheidiol.

Mae'n hollbwysig bod gan y tîm fferylliaeth yr adnoddau i weithio'n hyblyg ochr yn ochr â gweithwyr gofal ac iechyd proffesiynol eraill, ac y gall ymateb yn hyderus i'r anghenion sy'n newid parthed pobl a phoblogaethau sydd angen gofal. Mae hyn yn rhan allweddol o wneud yn siŵr y gwneir y defnydd gorau o wybodaeth, agweddau ac ymddygiadau pob aelod o'r tîm fferylliaeth fel y gallant ddarparu gwasanaethau fferyllol a'u gwella. Mae'r safonau addysg a'r hyfforddiant cychwynnol yr ydym yn eu gosod ar gyfer technegwyr fferyllol yn hollbwysig ar gyfer hyn. Mae gan dechnegwyr fferyllol rôl hanfodol a chynyddol mewn darparu gofal fferyllol.

Fel grŵp proffesiynol, dim ond yn lled ddiweddar y mae technegwyr fferyllol wedi cael eu rheoleiddio. Fodd bynnag, cânt eu gweld yn fwyfwy fel aelodau hollbwysig o'r gweithlu gofal iechyd, gyda chyfrifoldebau a rolau cynyddol. Mae hyn yn amlwg o'n hymwneud â'r sector, a'r adborth yr ydym wedi ei dderbyn ar ein papur trafod *Tomorrow's pharmacy team* (2015). Mae

ein hymchwil yn cadarnhau bod y proffesiwn, yn debyg i grwpiau proffesiynol eraill, yn amrywiol ac yn gweithio mewn gwahanol leoliadau, gan ddarparu gofal fferyllol mewn ffyrdd cynyddol gymhleth.

Ein nod ar gyfer addysg a hyfforddiant - a adlewyrchu yn y safonau hyn - yw bod angen iddynt nid yn unig gefnogi dysgu gwybodaeth a sgiliau technegwyr fferyllol, ond hefyd gynorthwyo i'w gwreiddio mewn galluoedd gwneud penderfyniadau, eglurder ynglŷn â phroffesiynoldeb a'r gallu i weithio mewn tîm ac yn annibynnol.

Rhaid i'r safonau yr ydym yn ymgynghori arnynt adlewyrchu'r rolau sy'n ofynnol nawr gan dechnegwyr fferyllol ar adeg cofrestru. Rhaid iddynt hefyd baratoi technegwyr fferyllol y dyfodol i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau cynyddol, os yw cyflogwyr (yn y GIG a'r sectorau annibynnol) eisiau hyn ac os yw llywodraethau ar draws Prydain Fawr yn cynnig newidiadau i ddeddfwriaeth. Mae'r ddogfen hon yn nodi safonau drafft ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol (IET) technegwyr fferyllol sydd wedi'u cynllunio i adlewyrchu hyn.

Rydym wedi drafftio'r safonau newydd mewn dwy ran. Set o ddeilliannau dysgu cwrs addysgiadol yw rhan 1 a seiliwyd ar yr hyn a glywsom yn ystod ein dau ymgynghoriad gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol a chleifion: *Educating the pharmacy team* (2015), a *Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol* (2016). Os ydym wedi llwyddo i adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywsom, dylai'r deilliannau dysgu ddisgrifio'r wybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth ac ymddygiadau proffesiynol sydd eu hangen gan dechnegydd fferyllol cynnar yn ei yrfa. Set o

safonau a gofynion ar gyfer darparwyr cyrsiau - y bobl y bydd eu cyrsiau'n cyflawni'r deilliannau dysgu - yw rhan 2.

Mae gan dechnegwyr fferyllol rôl werthfawr a phwysig mewn gwella iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd - ac mae eu haddysg a'u hyfforddiant cychwynnol yn ganolog i hynny. Gobeithiwn glywed gan gymaint o bobl a sefydliadau â phosibl wrth i ni barhau i ddatblygu ein safonau dros y misoedd nesaf.



**Nigel Clarke**  
Cadeirydd



**Duncan Rudkin**  
Prif Weithredwr  
a Chofrestrydd

### Datblygu'r safonau

Rydym wedi ystyried amrediad o wybodaeth wrth ddatblygu'r safonau drafft hyn. Rydym wedi clywed gan dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru a thechnegwyr fferyllol cofrestredig. Rydym hefyd wedi ystyried yr adborth a dderbyniasom o'n papurau trafod *Tomorrow's pharmacy team* (2015) a *Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol* – sy'n adeiladu ar ein papur 2014 *Patient-centred professionalism in pharmacy* (2016).

Cawsom gefnogaeth hefyd i ddatblygu'r safonau hyn gan grŵp allanol sydd ag arbenigedd a gwybodaeth am addysg a hyfforddiant technegwyr fferyllol. Rydym nawr am brofi ein syniadaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod ein safonau newydd yn adlewyrchu nodweddion hanfodol y proffesiwn hwn. Dywedwch wrthym beth yw eich barn ynglŷn ag unrhyw rai neu'r cyfan o'r cynigion a ddisgrifir yn y ddogfen hon.

Cynhelir yr ymgynghoriad am 14 wythnos a bydd yn cau ar **Ddydd Mercher 1 Mawrth 2017**. Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn anfon y ddogfen hon at ystod o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid, yn cynnwys cyrff cynrychioliadol proffesiynol, cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant, a chyrrff cynrychioli cleifion. Gobeithiwn y byddwch yn darllen y papur trafod hwn ac yn ystyried ymateb. Mae rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon i'w cael ar ein gwefan [www.pharmacyregulation.org/PTIETstandards](http://www.pharmacyregulation.org/PTIETstandards) neu gallwch gysylltu â ni os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

### Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad mewn nifer o wahanol ffyrdd. Gallwch lenwi'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon neu fynd i [www.pharmacyregulation.org/PTIETstandards](http://www.pharmacyregulation.org/PTIETstandards) a llenwi fersiwn ar-lein yno.

Os ydych yn llenwi'r holiadur, anfonwch ef at:

[consultations@pharmacyregulation.org](mailto:consultations@pharmacyregulation.org) gyda'r pwnc 'Ymgynghoriad ar safonau IET ar gyfer technegwyr fferyllol'

neu ei bostio atom yn:

**IET standards for pharmacy technicians  
consultation response  
Education Team  
General Pharmaceutical Council  
25 Canada Square  
London E14 5LQ**

### Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon neu sylwadau yr hoffech eu gwneud yn benodol am y broses ymgynghori, anfonwch hwy at:

[feedback@pharmacyregulation.org](mailto:feedback@pharmacyregulation.org)

neu postiwch hwy atom n:

**Governance Team  
General Pharmaceutical Council  
25 Canada Square  
London E14 5LQ**

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.





## Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd gennym. Bydd ein cyngor llywodraethu yn derbyn y dadansoddiad mewn cyfarfod yn ystod haf 2017. Bydd yn rhoi ystyriaeth i'r ymatebion wrth benderfynu ar y safonau IET terfynol ar gyfer technegwyr fferyllol.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion yr ydym yn eu derbyn ac esboniad o'r penderfyniadau a wnaed. Gallwch weld hyn ar ein gwefan **[www.pharmacyregulation.org](http://www.pharmacyregulation.org)**

# Cefndir

## Cyd-destun

Mae gan dechnegwyr fferyllol rôl hollbwysig mewn darparu gofal a chynorthwyo pobl i gynnal a gwella eu hiechyd, diogelwch a lles. Mae'r proffesiynoldeb y maent yn ei ddangos yn ganolog i gynnal ymddiriedaeth a hyder mewn fferylliaeth. Rhaid i'r proffesiynoldeb hwnnw fod wedi'i wreiddio mewn addysg a hyfforddiant cychwynol sy'n addas at y diben.

Mae technegwyr fferyllol wedi bod yn gweithredu ers cryn amser, ond dim ond ers 2011 y bu'n rhaid iddynt fod wedi bod ar ein cofrestr statudol. Mae'n bwysig bod ein holl safonau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Dyma ein cyfle i wneud yn siŵr bod safonau IET technegwyr fferyllol a osodwyd yn wreiddiol gennym yn adlewyrchu rolau presennol a rolau sy'n newid y technegwyr fferyllol. Mewn geiriau eraill, prif her gosod y safonau IET hyn yw gwneud yn siŵr bod gan dechnegwyr fferyllol a gofrestrir yn newydd nid yn unig y wybodaeth, sgiliau a'r cymhwysedd i gyflawni rôl cofrestrai 'blynyddoedd cynnar', ond hefyd sgiliau gwneud penderfyniadau a dealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Y cyfuniad hwn o wybodaeth, sgiliau, ymddygiadau a phroffesiynoldeb fydd yn caniatáu i gofrestredigion y dyfodol ddatblygu er mwyn bodloni'r galwadau a fydd yn y dyfodol.

## Ffynonellau gwybodaeth perthnasol eraill

Pan wanethom ymgynghori ar *Tomorrow's pharmacy team* clywsom eich bod yn cytuno gyda'n cred bod proffesiynoldeb, cyfathrebu da a'r gallu i weithio mewn timau wrth galon yr holl

rolau yn y tîm. Ein nod oedd bod pob un o'r tri yma wedi'u gwreiddio yn ein safonau. Yn *Patient-centred professionalism* gwnaethom gynnig y dylai ein safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol<sup>1</sup> gael eu seilio ar naw maes ymarfer:

1. Gofal wedi'i ganoli ar y person
2. Gweithio mewn partneriaeth
3. Cyfathrebu effeithiol
4. Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol
5. Arweinyddiaeth effeithiol
6. Codi llais ynglŷn â phryderon
7. Parch ar gyfer preifatrwydd personol a chyfrinachedd
8. Ymddygiad proffesiynol
9. Barn broffesiynol

Roedd ymatebwyr yn cytuno gyda ni. Gan fod safonau addysg a hyfforddiant wedi'u cysylltu'n agos i safonau ymarfer mae'n gwneud synnwyr eu mapio ar ei gilydd yn y cyd-destun hwn. Dyma beth yr ydym wedi ei wneud.

Gwnaethom hefyd ystyried dau ddarn ymchwil a gomisiynwyd gennym yn 2014 a 2015: un i gyflwr presennol addysg a hyfforddiant cychwynol technegwyr fferyllol ym Mhrydain Fawr, ac un i farn pobl am IET technegwyr fferyllol<sup>2</sup>. Gwyddom o'r gwaith hwn bod angen mwy o bwyslais ar broffesiynoldeb a

<sup>1</sup> Bydd y rhain yn disodli ein *Safonau ymddygiad, moesegau a pherfformiad*

<sup>2</sup> *The quality of pharmacy technician education and training* (Centre for Pharmacy Workforce Studies, Prifysgol Manceinion, 2014) ac *An analysis of the initial education and training standards for pharmacy technicians and views on their fitness for purpose* (University College London (UCL)/London Pharmacy Education and Training (LPET), 2015)

chyfrifoldeb personol yn y safonau newydd, a bod angen i ni ddileu cyfeiriadau at weithdrefnau technegol anarferedig.

Ffynhonnell gwybodaeth arall ddiweddar iawn a gwerthfawr am rolau presennol ac yn y dyfodol ar gyfer technegwyr fferyllol yw astudiaeth a gomisiynwyd gan Gymdeithas Technegwyr Fferyllol y DU (APTUK) a Phrifysgol East Anglia (UEA)<sup>3</sup>. Dywed yr astudiaeth hon wrthym fod elfennau craidd cyffredin i rolau technegwyr fferyllol mewn fferyllfeydd cymunedol a fferyllfeydd ysbyty, ond bod yno hefyd wahaniaethau. Mae hefyd yn dweud wrthym, waeth beth yw eu sector ymarfer, rhaid i dechnegwyr fferyllol fod yn weithwyr proffesiynol cyfrifol gydag ystod o sgiliau a chymwyseddau. Gobeithiwn y byddwch yn gweld bod ein safonau diwygiedig yn adlewyrchu hyn.

Chwaraeodd rhanddeiliaid fferylliaeth hefyd rôl bwysig i'n cynorthwyo i ddatblygu ein safonau. Cawsom gymorth gan rhanddeiliaid o dair gwlad Prydain Fawr a gan amrywiaeth o leoliadau sydd â gwybodaeth a phrofiad uniongyrchol o addysg a hyfforddiant technegwyr fferyllol. Gwnaethant weithio gyda ni i ddatblygu'r safonau drafft hyn ac roeddent yn 'fwrdd seinio' gwerthfawr yn ystod y broses ddatblygu.

## Y safonau

Bydd y safonau hyn yn berthnasol i bawb sy'n hyfforddi i fod yn dechnegydd fferyllol ym Mhrydain Fawr. Bydd technegwyr fferyllol sy'n ymarfer yn gweithio mewn amrywiaeth o gyd-destunau a bydd eu rolau yn newid dros amser, ond nid yw ein cofrestr yn gwahaniaethu rhwng sectorau ymarfer. Diben IET yw rhoi sylfaen eang o sgiliau a phriodweddau i dechnegwyr fferyllol cynnar yn eu gyrfa mewn ystod o leoliadau fferylliaeth ym mhob gwlad ym Mhrydain Fawr.

Yn y safonau rydym wedi ceisio adlewyrchu'n gywir y disgwyliadau sydd ar dechnegwyr fferyllol cynnar yn eu gyrfa:

- beth mae'r GIG a chyflogwyr eraill am iddynt allu ei wneud
- y lleoliadau y byddant yn ymarfer ynddynt, a
- gofynion y gweithlu ehangach

Mae'r materion hyn yn allweddol ar gyfer gosod y safonau a pharatoi technegwyr fferyllol ar gyfer cofrestriad, yn ogystal ag ar gyfer addysg a hyfforddiant pellach mewn rolau mwy arbenigol.

Bydd nifer sylweddol o ddeilliannau dysgu yn debyg ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol. Ond mae yna hefyd wahaniaethau pwysig yng nghwmpas a lefel yr hyfforddiant. Yr her allweddol yw gwneud yn siŵr bod safonau IET fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn adlewyrchu realiti ymarfer, a'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen.

Mae ein safonau IET presennol ar gyfer technegwyr fferyllol yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i addysg a hyfforddiant cychwynnol gael ei gynnal yn y gweithle. Fodd bynnag, yn yr

<sup>3</sup> *Identifying the roles of Pharmacy Technicians in the UK* (APTUK/Prifysgol East Anglia, 2016)

ymchwil a gomisiynwyd gennym a thrwy adborth uniongyrchol gan randdeiliaid, roedd hi'n glir er mwyn i ddysgu fod mor effeithiol â phosibl y dylai fod cysylltiadau cryfach rhwng darparwyr cyrsiau a chyflogwyr. Rydym wedi cynnwys hyn yn ein safonau.

Mae'r cyd-destun y darperir addysg a hyfforddiant technegwyr fferyllol ynddo yn berthnasol i'n safonau hefyd. Darperir cyrsiau ochr yn ochr â gwaith; darperir rhai wyneb yn wyneb, rhai o bell a rhai drwy gyfuniad o'r ddau fath. Un o'n prif nodau yw bod y safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau yn caniatáu ar gyfer ystod o ddulliau darparu.

### Deall rôl y technegydd fferyllol

Fel fferyllwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, mae rôl y technegydd fferyllol yn un hyblyg ac yn un sy'n amrywio rhwng lleoliadau a sectorau. Beth bynnag fo'r amgylchiadau, mae technegwyr fferyllol yn chwarae rhan mewn rheolaeth meddyginiaethau fel aelod o dîm fferyllfa neu dîm amlbroffesiwn, rheolwyr ac addysgwyr. Golyga hyblygrwydd y rôl y gall technegwyr fferyllol weithio mewn fferyllfeydd cofrestredig; mewn gofal sylfaenol, eilaidd neu drydyddol; mewn lleoliadau sydd ddim yn rhai gofal iechyd; neu mewn cyfuniad o'r rhain.

Rydym hefyd wedi clywed, drwy drafodaethau y gwnaethom eu cynnal ac adborth a gasglwyd gennym cyn dechrau'r ymgynghoriad hwn, bod rhai rhannau o rôl y technegydd fferyllol yr arferid eu hystyried yn ymarfer datblygedig nawr yn elfen sylfaenol o'r rôl. Pan mai hyn yw'r achos, dylid adlewyrchu hyn yn y safonau drafft newydd.

Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- y gallu i gynnal gwiriadau cywirdeb

- y gofyniad i dechnegwyr fferyllol sydd newydd gymhwyso (fel fferyllwyr) allu deall cysyniadau diogelwch craidd megis llywodraethu clinigol a chorfforaethol, yn ogystal ag archwiliad, a'r
- gallu i weithio o fewn ac ar draws timau

### Sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant cychwynnol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r safonau a osodir gennym ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol ar gyfer technegwyr fferyllol. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli unwaith y cymeradwyir ac y cyflwynir safonau newydd y bydd angen i ni symud yn gyflym i ddatblygu ein gweithdrefnau achredu ar gyfer cyrff dyfarnu a darparwyr cyrsiau. Fel rhan o'r gwaith hwn bydd angen i ni hefyd ystyried sut y gellir rhoi sicrwydd i ni ynglŷn ag ansawdd hyfforddiant yn y gweithle. Mae hwn yn rhywbeth a godwyd pan oeddem yn trafod y safonau hyn cyn dechrau ar yr ymgynghoriad.

Ar gyfer fferyllwyr, mae nifer o ffyrdd o sicrhau ansawdd IET, yn arbennig yn y flwyddyn hyfforddiant cyn-cofrestru. Mae'r rhain yn amrywio o wlad i wlad yn dibynnu ar strwythur, cyllido a'r gweithdrefnau sicrwydd ansawdd a ddefnyddir: er enghraifft, gan Health Education England, NHS Education Scotland a'r Gwasanaeth Gweithlu, Addysg a Datblygu yng Nghymru.

Mae'r strwythur ar gyfer hyfforddiant cyn-cofrestru technegwyr fferyllol yn wahanol iawn. Caiff peth hyfforddiant ei ddarparu gan ddarparwyr preifat a'i achredu'n uniongyrchol; darperir hyfforddiant arall gan golegau addysg bellach yn ôl gofynion corff cymhwyster cenedlaethol.

Bwriadwn wneud rhagor o waith i adolygu sut yr ydym yn rheoli achrediad, a sut y gall gwell gweithdrefnau sicrwydd ansawdd godi hyder mewn hyfforddiant yn y gweithle. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda chyrrff cymwysterau, darparwyr hyfforddiant, cyrff cynrychioli technegwyr fferyllol, cyflogwyr ac eraill.

Byddwn yn dechrau trwy gael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud â hyfforddiant yn y gweithle ar gyfer technegwyr fferyllol, a'u rolau a'u cyfrifoldebau, a sut y sicrheir ansawdd IET ar hyn o bryd. Yna byddwn yn datblygu cynigion i ddiweddarau, ac os oes angen, gwella sut yr ydym yn goruchwyllo hyfforddiant technegwyr fferyllol.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnal ar wahân i'n ymgynghoriad ar y safonau, ond bydd yn dechrau tra bydd yr ymgynghoriad yn mynd rhagddo.

## Strwythur y safonau hyn

Mae'r safonau hyn yn nodi'r deilliannau dysgu ar gyfer technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru. Prif nod y deilliannau dysgu yw bod technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn darparu gofal o ansawdd uchel, gyda diogelwch yn rhan hollbwysig ohono. Mae hyn yn ganolog i addysg a hyfforddiant holl weithwyr fferyllol proffesiynol ac mae wedi'i wreiddio drwy'r safonau hyn.

Mae dwy ran i'r safonau:

### Rhan 1: Safonau IET ar gyfer technegwyr fferyllol – deilliannau dysgu

Mae'r rhan hon yn cynnwys y wybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth ac ymddygiad proffesiynol mae'n rhaid i dechnegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru eu dangos ar ddiwedd cwrs sy'n arwain at gofrestrriad gyda'r CFfC.

### Rhan 2: Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau IET

Mae'r rhan hon yn cynnwys gofynion cwrs sy'n darparu'r deilliannau dysgu yn rhan 1.

Er eu bod ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol, mae cysylltiad agos rhwng y ddau. Dyna pam eu bod wedi'u cyflwyno mewn un ddogfen.

Unwaith y bydd y safonau wedi'u cytuno byddwn yn cyhoeddi canllaw arnynt ar gyfer darparwyr cyrsiau.

## Ein hymagwedd tuag at ran 1: safonau IET ar gyfer technegwyr fferyllol - deilliannau dysgu

Cyflwynir y safonau hyn fel deilliannau dysgu. Mae'r deilliannau dysgu yn cynnwys y wybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth ac ymddygiad proffesiynol mae'n rhaid i dechnegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru eu dangos ar ddiwedd cwrs<sup>4</sup>. Yn eu cyfanrwydd, mae'r deilliannau hyn yn disgrifio technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru sy'n addas i ymarfer unwaith ei fod wedi cofrestru.

Rydym wedi eu grwpio o dan bedwar 'parth', gan adeiladu ar y tair thema allweddol yn ein hymgyngoriad ar ddyfodol y tîm fferyllol (proffesiynoldeb, cyfathrebu a gweithio fel tîm) a'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Y parthau yw:

1. Gofal wedi'i ganoli ar y person
2. Proffesiynoldeb
3. Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol
4. Cydweithio

Mae'r deilliannau dysgu mewn 'proffesiynoldeb' a 'chydweithio' yn fwy cyffredinol ac yn disgrifio priodweddau gweithiwr fferyllol proffesiynol. Mae'r deilliannau dysgu mewn 'gwybodaeth a sgiliau proffesiynol' yn canolbwyntio ar fecanweithiau rôl y technegydd fferyllol, ar mae'r rhai sydd i'w cael mewn 'gofal wedi'i ganoli ar y person' yn rhoi'r wybodaeth a'r

sgiliau sydd eu hangen yng nghyd-destun darparu gofal.

---

<sup>4</sup> Cymeradwyir cyrsiau addysg a hyfforddiant cychwynnol yn arwain at gymhwyster i gofrestru gan y CFFC.

## Cysylltu addysg a hyfforddiant cychwynnol ac ymarfer

Mae pob un o'r pedwar pennawd wedi'i gysylltu i safon allan o'n naw o safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, er mwyn dangos y cysylltiad rhwng IET ac ymarfer. Pan fo hynny'n briodol rydym wedi cynnwys y safonau hyn fel deilliannau dysgu (gweler isod).

Mae'r safonau'n cynnwys y term 'gofal wedi'i ganoli ar y person' ac yn cyfeirio at 'berson' drwyddynt. Golyga hyn 'y person sy'n derbyn gofal'. Fodd bynnag, er nad ydym yn benodol wedi crybwyll gofalwyr na chynrychiolwyr cleifion, mae'r termau hyn yn berthnasol iddynt hwythau hefyd yn dibynnu ar y cyd-destun. Mae hyn yn gyson gyda'n defnydd o'r gair 'person' yn ein safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Gofal wedi'i ganoli ar y person			Proffesiynoldeb		Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol		Cydweithio	
Gofal wedi'i ganoli ar y person	Cyfathrebu effeithiol	Parch ar gyfer preifatrwydd personol a chyfrinachedd	Ymddygiad proffesiynol	Barn broffesiynol	Codi llais ynglŷn â phryderon	Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol	Gweithio mewn partneriaeth	Arweinyddiaeth effeithiol

## Ein hymagwedd tuag at ran 2: safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau IET

Mae Rhan 2 y safonau'n canolbwyntio ar nodweddion allweddol cyrsiau sy'n darparu'r deilliannau dysgu yn rhan 1. Darperir IET technegwyr fferyllol mewn gwahanol ffyrdd. Felly mae'n bwysig nodi nad yw'r safonau'n rhagnodol ynglŷn â sut y darperir IET. Dylent weithio yr un mor dda ar gyfer hyfforddiant a ddarperir wyneb yn wyneb, o bellter neu fel cyfuniad o'r ddau.

Gan dderbyn y gall darparu a'r cynllunio fod yn amrywiol, credwn fod tair dogfen sy'n rhaid i bob cwrs eu cael:

- strategaeth addysgu a dysgu, i ddisgrifio sut y caiff y deilliannau dysgu yn rhan 1 eu darparu
- strategaeth asesu, i ddisgrifio sut y caiff y deilliannau dysgu yn rhan 1 eu hasesu, a
- chynllun rheoli, i ddisgrifio pwy sy'n gyfrifol am beth wrth ddarparu cwrs, a'r cysylltiadau rhwng dysgu a gwaith

Yn y safonau rydym wedi bod yn glir ynglŷn â beth mae'n rhaid i'r dogfennau hyn ei gynnwys, ond mewn modd lle gall cyrsiau gael eu darparu, eu hasesu a'u rheoli mewn ffyrdd tra gwahanol.

Fel y gwnaethom gyda rhan 1, rydym wedi grwpio rhan 2 y safonau yn barthau:

1. Dewis a gofynion mynediad
2. Cydraddoldeb ac amrywiaeth
3. Rheolaeth, adnoddau a gallu
4. Monitro, adolygu a gwerthuso
5. Cynllunio a darparu'r cwrs
6. Asesu cwrs
7. Cefnogaeth a phrofiad dysgu technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru

Ym mhob parth mae un neu ragor o safonau, wedi eu dilyn gan nifer o feini prawf sy'n rhaid bod ar waith er mwyn bodloni'r safon.



Mae'r adran hon yn dangos y testun at gyfer y safonau arfaethedig

## Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol technegwyr fferyllol

### Diogelu cleifion a'r cyhoedd


Mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn chwarae rhan hollbwysig mewn sicrhau diogelwch y cyhoedd a chleifion drwy ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Mae diogelwch pobl wrth graidd y safonau hyn a rhaid iddo fod yn ganolog i addysg a hyfforddiant technegwyr fferyllol ym mhob amgylchedd dysgu. Nid yw diogelwch y cyhoedd a chleifion yn ofyniad ar wahân – mae wedi ei wreiddio yn yr holl safonau a'r meini prawf hyn. Rhaid i ddarparwyr rhaglen a chyflogwyr flaenoriaethu diogelwch y cyhoedd a chleifion ym mhob agwedd o'r cwrs a'i gyflenwad.

### Rhan 1: deilliannau dysgu

**Safon: Pan fyddant wedi cwblhau eu haddysg a hyfforddiant cychwynnol yn llwyddiannus, bydd technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru wedi cyflawni'r deilliannau dysgu yn y safonau hyn.**

### Disgrifio ac asesu deilliannau

Mae lefelau'r deilliannau yn y safon hon wedi'u seilio ar gymhwysedd sefydledig a hierarchaeth asesu a adnabyddir fel 'triongl Miller':



Oherwydd bod yr hyn a asesir ar bob un o'r pedair lefel yn wahanol, mae'r dulliau asesu sydd eu hangen yn wahanol hefyd – er y bydd peth gorgyffwrdd.

### Lefel 1 – Gwybod

Gwybodaeth y gellid ei defnyddio yn y dyfodol i ddangos cymhwysedd yw hon. Gallai asesiadau gynnwys traethodau, arholiadau llafar a chwestiynau amlddewis.

### Lefel 2 – Gwybod sut

Profion seiliedig ar gyd-destun - bydd technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn gwybod sut i ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau. Gallai asesiadau gynnwys traethodau, arholiadau llafar, cwestiynau amlddewis a llyfrau labordy.

### Lefel 3 – Dangos sut

Mae technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn gallu dangos y gall berfformio mewn amgylchedd efelychiadol neu mewn bywyd go iawn. Gall asesiadau gynnwys archwiliadau clinigol strwythuredig gwrthrychol (OSCE) ac asesiadau eraill yr arsylwir arnynt; asesiadau cleifion efelychiadol; cynllunio, cynnal ac adrodd ar arbrawf; profion dosbarthu a chymryd hanes claf.

### Lefel 4 – Gwneud

Gweithredu'n annibynnol a chyson mewn sefyllfa gymhleth ond diffiniedig. Darperir tystiolaeth ar gyfer y lefel hon pan fo technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn arddangos y deilliannau dysgu mewn sefyllfa gymhleth, cyfarwydd neu bob dydd dro ar ôl tro ac yn ddibynadwy. Gall asesiadau gynnwys OSCE neu asesiadau eraill yr arsylwir arnynt.

### Lefel astudiaeth

Mae addysg a hyfforddiant cychwynnol ar gyfer technegwyr fferyllol yn brofiad dysgu *galwedigaethol*, sy'n cyfuno dysgu a gwaith. Rhaid bod cyrsiau wedi eu cynllunio a'u darparu hyd at o leiaf Lefel 3 y *Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol* (Cymru a Lloegr) neu Lefel 6 *Fframwaith Cymwysterau a Chredyd yr Alban*.

### Parthau'r astudiaeth

Daw'r deilliannau dysgu o dan bedwar parth:

1. Gofal wedi'i ganoli ar y person
2. Proffesiynoldeb
3. Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol
4. Cydweithio

Mae'r parthau a'r deilliannau dysgu yr un mor bwysig â'i gilydd.

# 1. Gofal wedi'i ganoli ar y person

## Deilliannau dysgu

Bydd technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn gwneud y canlynol:

1. Cynnwys, cefnogi a galluogi pob person wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u hiechyd, gofal a lles	<b>Gwneud</b>
2. Optimeiddio meddyginiaeth person er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl	<b>Gwybod sut</b>
3. Gwrando ar y person, a deall ei anghenion a beth sy'n bwysig iddo ef neu hi	<b>Gwneud</b>
4. Rhoi'r holl wybodaeth berthnasol i'r person mewn ffordd y gall ei deall, fel y gall wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus	<b>Gwneud</b>
5. Cael gwybodaeth berthnasol gan bobl – yn cynnwys cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill – a'i defnyddio'n briodol	<b>Gwneud</b>
6. Cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth, deall gwahaniaethau diwylliannol a gwneud yn siŵr bod pob person – cleifion, cydweithwyr ac eraill – yn cael eu trin yn deg waeth beth fo'u gwerthoedd a'u credoau	<b>Gwneud</b>
7. Addasu gwybodaeth a chyfathrebu i fodloni gofynion cynulleidfaoedd penodol	<b>Gwneud</b>
8. Defnyddio egwyddorion llywodraethu gwybodaeth a sicrhau cyfrinachedd claf	<b>Gwneud</b>
9. Hyrwyddo'n effeithiol ffyrdd o fyw iach gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael a thechnegau seiliedig ar dystiolaeth	<b>Gwybod sut</b>
10. Gallu darparu cyngor iechyd cyhoeddus ac argymhell sgrinio iechyd cydnabyddedig neu fentrau iechyd cyhoeddus	<b>Gwybod sut</b>
11. Cymryd camau i ddiogelu pobl, yn arbennig plant ac oedolion agored i niwed	<b>Gwybod sut</b>

## 2. Proffesiynoldeb

### Deilliannau dysgu

Bydd technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn gwneud y canlynol:

12. Defnyddio barn broffesiynol er budd gorau pobl	<b>Gwneud</b>
13. Cydnabod a gweithio o fewn terfynau eu gwybodaeth a'u sgiliau, a chyfeirio at eraill pan fo angen	<b>Gwneud</b>
14. Ymateb yn effeithiol i gwynion, digwyddiadau a chamgymeriadau mewn modd sy'n dangos gofal wedi'i ganoli ar y person	<b>Gwneud</b>
15. Defnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau effeithiol	<b>Gwneud</b>
16. Cymryd cyfrifoldeb personol am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill, a dilyn i fyny unrhyw bryderon ynglŷn â'r gweithle a allai eu rhoi mewn perygl	<b>Gwneud</b>
17. Cydnabod pan fo'u perfformiad eu hunain neu berfformiad pobl eraill yn rhoi pobl mewn perygl ac ymateb yn briodol	<b>Gwneud</b>
18. Mynegi pryderon hyd yn oed pan nad yw'n hawdd gwneud hynny	<b>Gwneud</b>
19. Gweithredu'n agored a gonest pan fo pethau'n mynd o chwith	<b>Gwneud</b>
20. Defnyddio amrywiaeth o ddulliau i fonitro a myfyrio'n rheolaidd ar ymarfer, sgiliau a gwybodaeth	<b>Gwneud</b>
21. Defnyddio adborth yn effeithiol i ddatblygu ymarfer proffesiynol	<b>Gwneud</b>
22. Cynnal ystod o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) perthnasol	<b>Gwneud</b>
23. Ystyried a gweithredu ar adborth neu bryderon, gan feddwl beth ellid ei wneud er mwyn atal rhywbeth rhag digwydd eto	<b>Gwneud</b>

### 3. Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol

#### Deilliannau dysgu

Bydd technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn gwneud y canlynol:

24. Darparu gwasanaeth fferylliaeth diogel, effeithiol ac ymatebol	<b>Gwneud</b>
25. Cymryd cyfrifoldeb personol am gyflenwi meddyginiaethau yn gyfreithlon, diogel ac effeithlon	<b>Gwneud</b>
26. Defnyddio egwyddorion fferyllol sylfaneol ar gyfer defnydd meddyginiaethau	<b>Gwybod sut</b>
27. Cadarnhau addasrwydd meddyginiaethau person ar gyfer eu defnyddio a sicrhau cyflenwad digonol	<b>Gwneud</b>
28. Adalw a chysoni'n gywir wybodaeth am feddyginiaethau pobl	<b>Gwneud</b>
29. Asesu cyflenwad meddyginiaeth presennol person ac archebu meddyginiaethau a chynhyrchion priodol	<b>Gwybod sut</b>
30. Adolygu'n gywir feddyginiaeth person er mwyn nodi'r meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt	<b>Gwybod sut</b>
31. Archebu, derbyn, cynnal a chyflenwi meddyginiaethau a chynhyrchion fferyllol eraill yn ddiogel, cyfreithlon ac effeithiol	<b>Gwybod sut</b>
32. Derbyn presgripsiynau a gwirio eu dilysrwydd, diogelwch ac eglurder, gan weithredu i ddelio ag unrhyw broblemau	<b>Gwneud</b>
33. Defnyddio systemau'n effeithiol i gefnogi cyflenwi meddyginiaethau'n ddiogel	<b>Gwneud</b>
34. Cyd-gasglu eitemau rhagnodedig yn fanwl gywir	<b>Gwneud</b>
35. Defnyddio egwyddorion ar gyfer fformiwleiddiad, paratoi a phacedu meddyginiaethau a chynhyrchion yn ddiogel ac effeithiol	<b>Gwybod sut</b>
36. Dyroddi eitemau a ragnodwyd yn ddiogel ac effeithiol a gweithredu i ymdrin ag unrhyw anghysonderau	<b>Gwneud</b>

37. Cynnal gwiriad cywirdeb o feddyginiaethau a chynhyrchion i'w dosbarthu	<b>Gwneud</b>
38. Gwneud cyfrifiadau fferyllol yn gywir er mwyn sicrhau diogelwch pobl	<b>Gwneud</b>
39. Sicrhau ansawdd cynhwysion er mwyn cynhyrchu a chyflenwi meddyginiaethau a chynhyrchion diogel ac effeithiol	<b>Gwybod sut</b>
40. Adnabod adweithiau a rhyngweithio anffafriol i gyffur ac ymateb yn briodol	<b>Gwybod sut</b>
41. Gwaredu'n ddiogel a chyfreithlon feddyginiaethau a chynhyrchion fferyllol eraill	<b>Gwybod sut</b>
42. Ymateb yn briodol i argyfyngau meddygol, yn cynnwys darparu cymorth cyntaf	<b>Gwybod sut</b>
43. Deall pwysigrwydd cofnodi a dysgu gan gamgymeriadau a digwyddiadau fu bron a digwydd	<b>Gwybod sut</b>
44. Deall cysyniadau llywodraethu clinigol a gweithio'n effeithiol fel rhan o dimau amlddisgyblaeth	<b>Gwybod sut</b>
45. Cymryd rhan mewn archwiliad a strategaethau sicrwydd ansawdd a rhoi argymhellion ar waith yn effeithiol	<b>Gwybod sut</b>

## 4. Cydweithio

### Deilliannau dysgu

Bydd technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn gwneud y canlynol:

46. Arddangos gweithio tîm effeithiol	<b>Gwneud</b>
47. Cyfathrebu a gweithio'n effeithiol gydag aelodau o'r tîm amlddisgyblaeth	<b>Gwneud</b>
48. Gwirio eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill yn effeithiol	<b>Gwneud</b>
49. Cymryd rhan mewn dysgu a datblygiad pobl eraill	<b>Gwneud</b>
50. Blaenoriaethu amser ac adnoddau'n effeithiol er mwyn cyflawni amcanion	<b>Gwneud</b>

## Rhan 2: Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau IET

### Parth 1 – Dewis a gofynion mynediad

**Safon 1.1:** Rhaid i brosesau dewis fod yn agored, clir, diduedd ac yn cadw at deddfwriaeth berthnasol.

**Safon 1.2:** Rhaid bod prosesau wedi'u cynllunio i nodi ymgeiswyr sydd â'r priodweddau cywir ar gyfer hyfforddi fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

**Safon 1.3:** Rhaid i ofynion mynediad sicrhau bod ymgeiswyr yn gymwys i ymarfer fel hyfforddeion pan y'u dewisir.

#### Meini prawf i fodloni'r safonau hyn

- 1.1 Rhaid i'r meini prawf dewis fod yn glir a diamwys. Rhaid iddynt o leiaf:
  - fodloni'r meini prawf gofynnol penodedig o ran yr iaith Saesneg
  - bodloni'r gofynion rhifedd penodedig
  - rhoi ystyriaeth i wiriadau cymeriad da
  - rhoi ystyriaeth i wiriadau iechyd
- 1.2 Rhaid bod ymgeiswyr fod yn gweithio mewn lleoliad fferyllol ac yn cael eu goruchwyllo gan fferylllydd neu dechnegydd fferyllol.
- 1.3 Rhaid i ddewiswyr ddefnyddio'r meini prawf dewis yn gyson, mewn modd diduedd ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol. Dylent gael eu hyfforddi i wneud hyn a dylai'r hyfforddiant gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- 1.4 Rhaid rhoi'r arweiniad sydd ei angen ar ymgeiswyr i wneud cais gwybodus.

### Parth 2 – Cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Safon2:** Rhaid i bob agwedd ar addysg a hyfforddiant technegydd fferyllol fod yn seiliedig ar egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth a chadw at bob deddfwriaeth berthnasol.

#### Meini prawf i fodloni'r safonau hyn

- 2.1 Rhaid bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u gwreiddio yng nghynllun a darpariaeth y cwrs.
- 2.2 Rhaid defnyddio data cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gynllunio a darparu cyrsiau, ac wrth gynllunio'r profiad cyfan o fod yn dechnegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru.
- 2.3 Rhaid gwneud addasiadau rhesymol i gyflwyniad ac asesiad y cwrs er mwyn cynorthwyo technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru sydd ag anghenion penodol i fodloni'r deilliannau dysgu. Gellir addasu'r addysgu, y dysgu a'r asesu at y diben hwn ond ni ellir addasu'r deilliannau dysgu.


### Parth 3 – Rheoli, adnoddau a gallu

**Safon 3:** Rhaid i gyrsiau gael eu cynllunio a'u cynnal gan ddefnyddio prosesau tryloyw y mae'n rhaid iddynt ddangos pwy sy'n atebol am beth ar bob cam o'r addysg a hyfforddiant cychwynnol. Rhaid i'r cyfleusterau, seilwaith, arweinyddiaeth, staffio a staff cefnogi addysg a hyfforddiant fod yn ddigonol i ddarparu'r cwrs.

#### Meini prawf i fodloni'r safonau hyn

- 3.1 Rhaid i bob cwrs gael ei gefnogi gan gynllun rheoli diffiniedig y mae'n rhaid iddo gynnwys:
  - atodlen o rolau a chyfrifoldebau, yn yr amgylcheddau dysgu a hyfforddi ac yn y gweithle
  - llinellau atebolrwydd, yn yr amgylcheddau dysgu a hyfforddi ac yn y gweithle
  - strwythurau a phrosesau diffiniedig er mwyn rheoli cyflawniad
  - prosesau ar gyfer nodi a rheoli risg
- 3.2 Rhaid bod cytundebau ar waith yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig yng nghyflwyniad cwrs.
- 3.3 Rhaid i bob technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru gael cytundeb dysgu sy'n cwmpasu'r holl amgylcheddau dysgu a hyfforddi. Rhaid i hwn amlinellu rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd, a rhaid iddo ddweud sut y cefnogir hyfforddeion yn ystod y cwrs. Rhaid i



- 
- ddarparwyr cyrsiau esbonio sut y rhoddir sicrwydd iddynt y caiff y cytundebau dysgu eu gweithredu'n llawn.
- 3.4 Rhaid i bob darparwr cwrs fod â gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gysylltiedig yn y gwaith o gynllunio a darparu'r cwrs.
  - 3.5 Ym mhob amgylchedd dysgu a hyfforddi, rhaid bod:
    - staff gyda chymwysterau a phrofiad priodol
    - digon o staff o ddisgyblaethau perthnasol i ddarparu'r cwrs a chefnogi dysgu technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru
    - digon o adnoddau i ddarparu'r cwrs
    - cyfleusterau sy'n addas at y diben
    - mynediad at adnoddau dysgu priodol
  - 3.6 Rhaid i bawb sy'n gysylltiedig â rheoli a darparu'r cwrs ddeall eu rôl a rhaid rhoi cefnogaeth iddynt i gyflawni eu gwaith yn effeithiol.
  - 3.7 Rhaid i bob technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru gael ei gefnogi fel dysgwr yn y gweithle. Rhaid bod systemau ar waith ar gyfer cysylltu â darparwyr cyrsiau yn rheolaidd ynglŷn â chynnydd technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru.

## Parth 4 – Monitro, adolygu a gwerthuso

**Safon 4: Rhaid monitro, adolygu a gwerthuso ansawdd cyrsiau mewn modd systematig a datblygol.**

### Meini prawf i fodloni'r safonau hyn

- 4.1 Rhaid i bob elfen berthnasol cyrsiau gael eu monitro, eu hadolygu a'u gwerthuso yn systematig. Pan ganfyddir problemau rhaid eu dogfennu a rhaid delio â hwy o fewn amserlenni a gytunir.
- 4.2 Rhaid bod strwythur rheoli ansawdd ar waith sy'n nodi gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso. Rhaid i hwn gynnwys pwy sy'n gyfrifol am beth, ar amserlenni ar gyfer adrodd, adolygu a gweithredu pan fo hynny'n briodol.
- 4.3 Rhaid bod systemau ar waith i fonitro a gwerthuso safon yr addysgu, dysgu a'r asesu er mwyn gwneud yn siŵr y cynhelir ansawdd ar draws pob amgylchedd dysgu.
- 4.4 Rhaid i'r prosesau monitro ac adolygu cwrs roi ystyriaeth i'r amgylchedd allanol, yn arbennig fferyllfa, er mwyn gwneud yn siŵr bod cyrsiau'n parhau'n gyfoes wrth iddynt gael eu cyflwyno.
- 4.5 Rhaid i adborth ar gyfer technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru fod yn rhan o brosesau monitro, adolygu a gwerthuso.

## Parth 5 - Cynllunio a darparu'r cwrs

**Safon 5: Rhaid i gyrsiau ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymddygiadau proffesiynol gofynnol er mwyn bodloni'r deilliannau sydd yn rhan 1 y safonau hyn drwy ddefnyddio strategaeth addysgu a dysgu gydlynol. Rhaid i gynllunio a darpariaeth yr hyfforddiant roi ystyriaeth i farn rhanddeiliaid a rhaid iddynt sicrhau bod hyfforddeion yn ymarfer yn ddiogel ac effeithiol.**

### Meini prawf i fodloni'r safonau hyn

- 5.1 Rhaid bod cyrsiau wedi eu cynllunio a'u darparu gan ddefnyddio strategaethau sy'n dwyn ynghyd wybodaeth, cymhwysedd a gwaith.
- 5.2 Rhaid i safonau ar gyfer Gweithwyr Fferyllol Proffesiynol y CFC fod yn rhan o bob cwrs a dylid eu defnyddio'n weithredol. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ganddynt pan fyddant yn gofrestredig.
- 5.3 Rhaid cael strategaeth addysgu a dysgu cwrs sy'n nodi sut y bydd hyfforddeion yn cyflawni'r canlyniadau yn rhan 1 y safonau hyn.
- 5.4 Rhaid i gyrsiau fod wedi'u cynllunio a'u darparu i ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth a'r ymddygiadau proffesiynol sydd eu hangen i fodloni'r deilliannau dysgu yn rhan 1 y safonau hyn.
- 5.5 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau gael barn ystod o randdeiliaid – yn cynnwys cleifion, y cyhoedd a chyflogwyr – a rhoi ystyriaeth iddynt wrth gynllunio a darparu'r cwrs.
- 5.6 Rhaid diwygio cyrsiau pan fo newidiadau sylweddol mewn ymarfer, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gyfoes.
- 5.7 Rhaid goruchwyllo technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru gan ddefnyddio system y cytunir arni ym mhob amgylchedd dysgu a hyfforddi, er mwyn sicrhau diogelwch cleifion bob amser.
- 5.8 Rhaid i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru wneud dim ond y tasgau y maent yn gymwys ynddynt, neu y maent yn eu dysgu o dan oruchwyliaeth i fod yn gymwys ynddynt, fel na chyfaddawdir diogelwch cleifion.
- 5.9 Rhaid i reoliadau cwrs fod yn briodol ar gyfer cwrs sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol. Hynny yw, mae'n rhaid iddynt flaenoriaethu proffesiynoldeb, diogelwch cleifion ac ymarfer diogel ac effeithiol.
- 5.10 Rhaid i bob darparwr cwrs a chyflogwr gael gweithdrefnau i ymdrin â phryderon. Rhaid i bryderon difrifol a allai effeithio ar addasrwydd technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru ar gyfer cofrestriad yn y dyfodol gael eu hadrodd wrth y CFC.

## Parth 6 – Asesu cwrs

**Safon 6: Rhaid i gyrsiau gael strategaeth asesu sy'n asesu sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymddygiadau proffesiynol gofynnol er mwyn bodloni deilliannau rhan 1 y safonau hyn. Rhaid i'r strategaeth asesu a yw ymarfer technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn ddiogel.**

### Meini prawf i fodloni'r safonau hyn

- 6.1 Rhaid i gyrsiau gael strategaeth asesu sy'n sicrhau bod asesiad yn gadarn, dibynadwy a dilys.
- 6.2 Rhaid i'r strategaeth asesu asesu'r deilliannau dysgu yn rhan 1 y safonau hyn. Rhaid i'r dulliau a ddefnyddir fod yn briodol i'r hyn sy'n cael ei asesu; a rhaid i'r addysgu, dysgu a'r asesu fod wedi'u halinio.
- 6.3 Rhaid i asesiad cymhwysedd ddigwydd yn y gweithle.
- 6.4 Rhaid i ddiogelwch cleifion ddod yn gyntaf bob amser, a rhaid i strategaeth asesu asesu a yw technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn ymarfer yn ddiogel.
- 6.5 Rhaid bod systemau monitro ar waith ym mhob amgylchedd dysgu a hyfforddi. Mae'n rhaid i'r systemau asesu cynnydd technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru o ran bodloni'r deilliannau dysgu yn rhan 1 y safonau hyn. Rhaid iddynt sicrhau bod ymarfer technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn ddiogel bob amser. Dylid delio ag unrhyw achos i bryderu yn ei gylch cyn gynted â phosibl.
- 6.6 Rhaid bod cytundebau ar waith rhwng darparwyr cyrsiau, y gweithle a thechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru. Mae'n rhaid i'r rhain ddisgrifio rolau a chyfrifoldebau parthed asesiad technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru.
- 6.7 Rhaid i asesiadau gael eu cynnal gan bobl sydd wedi'u hyfforddi ac sydd â'r cymwysterau priodol ac sy'n gymwys i asesu perfformiad technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru.
- 6.8 Rhaid bod prosesau sicrhau ansawdd asesu annibynnol ar waith.
- 6.9 Rhaid i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru dderbyn adborth priodol ac amserol ar eu perfformiad, er mwyn cefnogi eu datblygiad fel dysgwyr a gweithwyr proffesiynol.
- 6.10 Rhaid i reoliadau asesu fod yn briodol ar gyfer cwrs sy'n arwain at gofrestrriad proffesiynol. Hynny yw, rhaid iddynt flaenoriaethau proffesiynoldeb, diogelwch cleifion, ac ymarfer diogel ac effeithiol.

## Parth 7 – Cefnogaeth a phrofiad dysgu technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru

**Safon 7: Rhaid i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru gael eu cefnogi ym mhob amgylchedd dysgu a hyfforddi er mwyn datblygu fel dysgwyr a gweithwyr proffesiynol yn ystod eu haddysg a hyfforddiant cychwynnol.**

### Meini prawf i fodloni'r safonau hyn

- 7.1 Rhaid bod amrediad o systemau ar waith i gefnogi hyfforddeion i gyflawni'r deilliannau dysgu yn rhan 1 y safonau hyn, gan gynnwys:
  - ymsefydlu
  - goruchwyliaeth effeithiol
  - llwyth gwaith priodol a realistig
  - cefnogaeth bersonol ac academaidd
  - amser i ddysgu
  - mynediad at adnoddau
- 7.2 Rhaid bod systemau ar waith i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru gwrdd yn rheolaidd â chydweithwyr yn y gweithle i drafod a dogfennu eu cynnydd fel dysgwyr.
- 7.3 Rhaid i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru fod â chefnogaeth ar gael iddynt sy'n cwmpasu astudiaeth academaidd, lles cyffredinol a chynghor gyrfaol.
- 7.4 Rhaid i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru gael mynediad at fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sy'n gallu gweithredu fel modelau rôl a rhoi cefnogaeth ac arweiniad proffesiynol.
- 7.5 Rhaid i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru gael y cyfle i weithio mewn amgylcheddau amlddisgyblaeth.
- 7.6 Rhaid bod gweithdrefnau clir i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru fynegi pryderon. Rhaid delio ag unrhyw bryder yn brydlon, gyda champau wedi'u dogfennu'n cael eu cymryd lle bo hynny'n briodol. Rhaid gwneud technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn ymwybodol o **ganllaw y CFFC ar gyfer mynegi pryderon am addysg a hyfforddiant fferyllol**
- 7.7 Rhaid i bawb sy'n cefnogi technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru roi ystyriaeth i ganllaw'r CFFC ar diwtora ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn eu gwaith.

## Newidiadau i'r meini prawf ar gyfer cofrestrriad fel technegydd fferyllol

Yn ogystal â datblygu safonau IET diwygiedig ar gyfer technegwyr fferyllol, rydym wedi adolygu'r meini prawf yr ydym yn eu gosod ar gyfer technegwyr fferyllol i gael eu cynnwys ar y gofrestr. Cafodd nifer o'r gofynion yn y meini prawf eu rhoi ar waith pan oedd technegwyr fferyllol yn gymwys i ymuno â'r gofrestr wirfoddol yn 2005, ac mae angen eu diweddarau.

Mae'r meini prawf mewn dwy ran. Mae rhan 1 yn nodi'r cymwysterau a'r gofynion profiad gwaith ar gyfer cofrestrriad cychwynnol fel technegydd fferyllol gyda'r CFFC. Mae rhan 2 yn nodi'r gofynion ar gyfer y rheini sydd eisiau dychwelyd i'r gofrestr fel technegydd fferyllol.

Rydym yn ystyried rhai newidiadau i ran 1 o ganlyniad i adborth yr ydym wedi ei dderbyn gan randdeiliaid, ac er mwyn adlewyrchu ymrwymiad y cyngor i fod yn reoleiddiwr seiliedig ar ddeilliannau ac un cymesur.

Y newidiadau yr ydym yn eu hystyried yw:

### a. Bydd technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn gallu hyfforddi o dan gyfarwyddyd, goruchwyliaeth neu arweiniad technegydd fferyllol neu fferyllydd.

O dan y meini prawf presennol, rhaid i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru hyfforddi o dan gyfarwyddyd, goruchwyliaeth neu arweiniad fferyllydd yn unig. Nawr bod technegwyr fferyllol yn grŵp cofrestredig sefydledig, credwn y dylai

technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru allu cael eu goruchwyllo gan y grŵp o gofrestredigion y maent yn bwriadu ymuno ag ef. Mae hyn hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith y gall technegwyr fferyllol hyfforddi'n gyfreithlon mewn amgylcheddau fferyllfa lle efallai na fydd fferyllydd yn bresennol.

### b. Cyflwyno peth hyblygrwydd i'r gofynion profiad gwaith dwy flynedd a'r isafswm oriau gosodedig ar gyfer y cyfnod hyfforddiant.

O dan y meini prawf presennol, rhaid i dechnegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru wneud o leiaf ddwy flynedd o brofiad gwaith yn y DU, ac mae hyn yn cynnwys gofyniad i weithio isafswm o oriau gosodedig ar gyfer y cyfnod profiad gwaith. Hoffem glywed barn ynglŷn ag a ddylai hyn barhau, neu a ddylid cyflwyno peth hyblygrwydd fel y caniateir i hyfforddeion sy'n gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu mewn llai na dwy flynedd wneud hynny, gyda mesurau diogelwch priodol.

### c. Dileu'r opsiwn y gall fferyllwyr cyfredol neu fferyllwyr newydd gofrestru ym Mhrydain Fawr neu Ogledd Iwerddon gofrestru fel technegydd fferyllol yn awtomatig.

Ar hyn o bryd, gall fferyllwyr cyfredol neu fferyllwyr newydd gofrestru, gofrestru'n awtomatig fel technegydd fferyllol. Er bod llawer o nodweddion tebyg rhwng y proffesiynau, mae yna hefyd wahaniaethau. Nid ydym yn teimlo ei bod hi'n briodol y gall un gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn syml gofrestru fel un arall heb rywfaent o asesiad annibynnol. Rydym yn awgrymu y dylai fferyllwyr sydd eisiau cofrestru fel technegwyr

fferyllol orfod cwblhau'r un addysg a hyfforddiant cychwynnol â thechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru, er y gallant wneud cais bod eu dysgu blaenorol yn cael ei gydnabod gan ddarparwr y cwrs.

Rydym wedi cynnwys cwestiwn ar y newidiadau arfaethedig hyn fel rhan o'r ymgynghoriad.

**Gallwch ddarllen ein meini prawf presennol ar gyfer cofrestru fel technegydd fferyllol ar ein gwefan yn:**

**[www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/Registration%20criteria%20for%20pharmacy%20technicians%20Dec%202013.pdf](http://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/Registration%20criteria%20for%20pharmacy%20technicians%20Dec%202013.pdf)**



## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

### Ymateb i'r ymgynghoriad ar safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol technegwyr fferyllol

#### Sut y byddwn yn defnyddio eich ymateb

Yn dilyn yr ymgynghoriad byddwn yn crynhoi'r hyn a glywsom. Efallai y byddwn yn cyhoeddi rhannau o'ch ymateb yn yr adroddiad hwnnw neu mewn dogfennau eraill, ond os ydych chi'n ymateb fel unigolyn preifat ni fyddwn yn defnyddio eich enw oni bai eich bod yn rhoi caniatâd i ni wneud hynny. Byddwn hefyd yn cyhoeddi rhestr o'r sefydliadau sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Os ydych am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech esbonio pam eich bod yn credu bod y wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Fodd bynnag, ni allwn warantu y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad.

Gallwch ddefnyddio fy enw yn yr adroddiad.

Gallwch

Nac allwch

Yr wyf yn rhoi fy nghaniatâd i CFfC ddyfynnu o fy ymateb yn yr adroddiad i'r ymgynghoriad.

Ydw

Nac ydw

Efallai y bydd yn rhaid i ni gyhoeddi'r holl wybodaeth sydd mewn ymatebion o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth (fel arfer Deddf Rhyddid Gwybodaeth Act 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os bydd eich ymateb wedi'i gwmpasu gan wadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ni fydd hyn yn do'i hun yn rhwymol ar y CFfC.

Defnyddir unrhyw wybodaeth monitro amrywiaeth y byddwch yn ei rhoi i ni er mwyn adolygu effeithiolrwydd ein proses ymgynghori. Ni fydd yn rhan o ymateb a gyhoeddir.

Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â chyhoeddi unrhyw ran o'ch ymateb:

#### Cwestiynau cefndir

Yn gyntaf, hoffem ofyn i chi am ychydig o wybodaeth gefndir. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ddeall barn grwpiau, unigolion neu sefydliadau penodol a'n galluogi i ymateb yn well i'r farn honno.

#### A ydych chi'n ymateb:

fel unigolyn – ewch i adran A

ar ran sefydliad – ewch i adran B

## Adran A – Ymateb fel unigolyn

Dywedwch wrthym beth yw eich:

enw:

cyfeiriad:

e-bost:

### Lle ydych chi'n byw?

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- arall (rhowch fanylion)

### A ydych chi'n ymateb fel:

- aelod o'r cyhoedd
- gweithiwr fferyllol proffesiynol – ewch i adran A1
- hyfforddai cyn-gofrestru
- myfyriwr
- arall (rhowch fanylion)

## Adran A1 – Gweithwyr fferyllol proffesiynol

### A ydych chi'n:

- fferylllydd
- technegydd fferyllol

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau'r maes yr ydych yn gweithio'n bennaf ynddo:

- fferyllfa gymunedol
- fferyllfa ysbyty
- sefydliad gofal sylfaenol
- addysg a hyfforddiant fferylliaeth
- y diwydiant fferyllol
- arall (rhowch fanylion)



## Adran B – Ymateb ar ran sefydliad

Dywedwch wrthym beth yw eich:

enw:

teitl eich swydd:

sefydliad:

cyfeiriad:

e-bost:

enw cyswllt ar gyfer ymholiadau:

### A yw eich sefydliad yn:

- sefydliad fferyllol
- sefydliad sydd ddim yn un fferyllol

### Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau eich sefydliad

- corff neu sefydliad sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol
- corff neu sefydliad sy'n cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd
- corff neu sefydliad sy'n cynrychioli masnach neu ddiwydiant
- fferyllfa gymunedol
- fferyllfa gorfforaethol – lluosog
- fferyllfa annibynnol
- sefydliad neu grŵp GIG
- sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddiant
- adran neu sefydliad llywodraeth
- corff rheoleiddio
- arall (rhowch fanylion)

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae gennym ddiddordeb penodol mewn clywed eich barn ar y pwyntiau canlynol, er ein bod yn croesawu eich sylwadau ar unrhyw faterion yr ydych eisiau eu codi ynglŷn â'r safonau IET ar gyfer technegwyr fferyllol.

### Rhan 1: Safonau IET ar gyfer technegwyr fferyllol – deilliannau dysgu a rhan 2: safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau IET

Mae'r safonau'n canolbwyntio ar ofal o ansawdd uchel, y mae diogelwch yn rhan allweddol ohono. Mae diogelwch wrth galon addysg a hyfforddiant pob gweithiwr fferyllol proffesiynol, ac mae wedi ei wreiddio yn y safonau hyn.

Mae'r safonau hefyd yn adlewyrchu sut y mae rhai elfennau o rôl y technegydd fferyllol, a ystyriwyd ar un adeg fel ymarfer datblygedig, erbyn hyn yn sylfaenol i'r rôl honno. Mae hyn yn cynnwys:

- y gallu i gyflawni gwiriadau cywirdeb
- y gofyniad i dechnegwyr fferyllol newydd gymhwyso (yn yr un modd â fferyllwyr) i allu deall cysyniadau diogelwch craidd megis llywodraethu clinigol a chorfforaethol, yn ogystal ag archwiliad, a'u
- gallu i weithio o fewn ac ar draws timau

Dylai'r safonau drafft hefyd adlewyrchu gwell cysylltiadau rhwng darparwyr a chyflogwyr.

#### 1. Safonau IET ar gyfer technegwyr fferyllol – deilliannau dysgu: Ai rhain yw'r deilliannau cywir, ar y lefel gywir?

#### 2. Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau IET: Ai rhain yw'r safonau a'r meini prawf cywir?

### Rhan3: Newidiadau i'r meini prawf ar gyfer cofrestru fel technegydd fferyllol

Gwnaethom hefyd amlinellu newidiadau mewn tri maes penodol:

#### a. Bydd technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru yn gallu hyfforddi o dan gyfarwyddyd, goruchwyliaeth neu arweiniad technegydd fferyllol neu fferyllydd.

O dan y meini prawf presennol, rhaid i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru hyfforddi o dan gyfarwyddyd, goruchwyliaeth neu arweiniad fferyllydd yn unig. Nawr bod technegwyr fferyllol yn grŵp cofrestredig sefydledig, credwn y dylai technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru allu cael eu goruchwyllo gan y grŵp o gofrestredigion y maent yn bwriadu ymuno ag ef. Mae hyn hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith y gall technegwyr fferyllol hyfforddi'n gyfreithlon mewn amgylcheddau fferyllfa lle efallai na fydd fferyllydd yn bresennol.

#### 3. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r newid arfaethedig hwn a'i

effaith bosibl?

#### b. Adolygu'r gofyniad ar gyfer profiad gwaith dwy flynedd a'r isafswm oriau gosodedig ar gyfer y cyfnod profiad gwaith.

O dan y meini prawf presennol, rhaid i dechnegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru wneud o leiaf ddwy flynedd o brofiad gwaith yn y DU, ac mae hyn yn cynnwys gofyniad i weithio isafswm o oriau gosodedig ar gyfer y cyfnod profiad gwaith. Hoffem glywed barn ynglŷn ag a ddylai hyn barhau, neu a ddylid cyflwyno peth hyblygrwydd fel y caniateir i hyfforddeion sy'n gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu mewn llai na dwy flynedd wneud hynny, gyda mesurau diogelwch priodol.

#### 4. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn ag a ddylem gadw'r gofyniad profiad gwaith dwy flynedd neu a ddylem gyflwyno newid, ac ynglŷn ag unrhyw effaith bosibl?

**c. Dileu'r opsiwn y gall fferyllwyr cyfredol neu fferyllwyr newydd gofrestru ym Mhrydain Fawr neu Ogledd Iwerddon gofrestru fel technegydd fferyllol yn awtomatig.**

Ar hyn o bryd, gall fferyllwyr cyfredol neu fferyllwyr newydd gofrestru, gofrestru'n awtomatig fel technegydd fferyllol. Er bod llawer o nodweddion tebyg rhwng y proffesiynau, mae yna hefyd wahaniaethau. Nid ydym yn teimlo ei bod hi'n briodol y gall un gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn syml gofrestru fel un arall heb rywfaint o asesiad annibynnol. Rydym yn awgrymu y dylai fferyllwyr sydd eisiau cofrestru fel technegwyr fferyllol orfod cwblhau'r un addysg a hyfforddiant cychwynnol â thechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru, er y gallant wneud cais bod eu dysgu blaenorol yn cael ei gydnabod gan ddarparwr y cwrs.

**5. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r newid arfaethedig hwn a'i effaith bosibl?**

**Adborth ar hyfforddiant yn y gweithle a sicrwydd ansawdd ar gyfer yr IET neu dechnegwyr fferyllol**

Ar hyn o bryd sicrheir ansawdd cyrsiau IET drwy achrediad gan y CFfC. Mae'r broses achredu yn cwmpasu deilliannau dysgu a gofynion ar ddarparwyr cyrsiau. Croesawn unrhyw sylwadau neu adborth ynglŷn ag ansawdd hyfforddiant yn y gweithle, yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru ac unrhyw feysydd y mae ymatebwyr yn teimlo sydd angen eu cryfhau.

**6. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â hyfforddiant yn y gweithle a sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant cychwynnol?**



## Monitro cydraddoldeb

Nid ydym wedi canfod unrhyw feysydd lle byddai'r safonau hyn neu'r newidiadau a awgrymir i'r meini prawf yn gwahaniaethu yn erbyn, neu'n anfwriadol anfanfanteisiol i unrhyw unigolyn neu grŵp. Fodd bynnag, gwyddom o'n dadansoddiad ein hunain bod y gweithlu technegwyr fferyllol yn wahanol i weithlu fferyllwyr. Er enghraifft, mae'r cydbwysedd o ran rhyw yn wahanol. Rydym hefyd yn sylweddoli y gall y modd y caiff addysg a hyfforddiant ei ddarparu effeithio'n wahanol ar grwpiau.

Croesawn eich barn ar unrhyw agwedd o'n cynigion a allai gael effaith - cadarnhaol neu negyddol - parthed cydraddoldeb. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol y gallai'r newid yr ydym yn ei gynnig i'r gofyniad profiad gwaith dwy flynedd effeithio'n wahanol ar grwpiau.

**7. A ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth yn y safonau neu'r newidiadau a argymhellir i'r meini prawf ar gyfer cofrestru yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp penodol o gymharu â grwpiau eraill?**

## Sylwadau eraill

Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill, ychwanegwch hwy yma:

## Monitro cydraddoldeb

Yn y CFFC rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein holl waith fel rheoleiddiwr gweithwyr iechyd proffesiynol, a gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb.

Rydym eisiau gwneud yn siŵr fod gan bawb gyfle i ymateb i'n hymgyngoriad ar safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Bydd y ffurflen monitro cydraddoldeb hon yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni fel y gallwn wirio bod hyn yn digwydd.

Nid oes yn rhaid i chi ei llenwi, ac ni chaiff eich atebion ar y ffurflen hon eu cysylltu i'ch ymatebion i'r ymgynghoriad.

### Beth yw eich rhyw?

Ticiwch un blwch

- Gwryw
- Benyw
- Arall

### Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

Ticiwch un blwch

- Heterorywiol/syth
- Menyw hoyw /lesbiad
- Dyn hoyw
- Deurywiol

- Arall
- Gwell gennyf beidio dweud

## A ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Diffinnir anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel "amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu person i wneud gweithgareddau arferol bob dydd". Ticiwch un blwch.

- Ydw
- Nac Ydw
- Gwell gennyf beidio dweud

### Beth yw eich grŵp oedran?

Ticiwch un blwch

- 16 – 24 oed
- 25 – 34 oed
- 35 – 44 oed
- 45 – 54 oed
- 55 – 64 oed
- 65 + oed

### Beth yw eich grŵp ethnig?

Dewiswch y blwch priodol i ddynodi eich cefndir diwylliannol. Ticiwch un blwch.

**Gwyn**

- Prydeinig
- Gwyddelig
- Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- Cefndir gwyn arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

- Grŵp ethnig arall llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

### **Du neu Ddu Prydeinig**

- Du Caribiaidd
- Du Affricanaidd
- Cefndir du arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

### **Mixed**

- Gwyn a Du Caribiaidd
- Gwyn a Du Affricanaidd
- Du ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir cymysg arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

### **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig**

- Indiaidd
- Pacistani
- Bangladeshi
- Asiaidd arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

### **Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig**

- Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig

## Rhagfyr 2016

### Arabaidd

- Arabaidd

### Arall

- Gwell gennyf beidio dweud
- Unrhyw gefndir ethnig arall (rhowch fwy o wybodaeth isod)

## Beth yw eich crefydd?

Ticiwch un blwch

- Bwdhydd
- Cristion
- Hindŵ
- Iddew
- Mwslim
- Sîc
- Dim
- Arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)
- Gwell gennyf beidio dweud



## Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u coladu

1. Safonau IET ar gyfer technegwyr fferyllol – deilliannau dysgu: Ai rhain yw'r deilliannau cywir, ar y lefel gywir?
2. Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau IET: Ai rhain yw'r safonau a'r meini prawf cywir?
3. Nawr bod technegwyr fferyllol yn grŵp cofrestredig sefydledig, credwn y dylai technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestru allu cael eu goruchwyllo gan y grŵp o gofrestedigion y maent yn bwriadu ymuno ag ef. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r newid arfaethedig hwn a'i effaith bosibl?
4. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn ag a ddylem gadw'r gofyniad profiad gwaith dwy flynedd neu a ddylem gyflwyno newid, ac ynglŷn ag unrhyw effaith bosibl?
5. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r newid arfaethedig hwn a'i effaith bosibl?
6. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â hyfforddiant yn y gweithle a sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant cychwynnol?
7. A ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth yn y safonau neu'r newidiadau a argymhellir i'r meini prawf ar gyfer cofrestru yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp penodol o gymharu â grwpiau eraill?



© General Pharmaceutical Council 2016

**General Pharmaceutical Council**  
25 Canada Square, London E14 5LQ  
T 020 3713 8000  
E [info@pharmacyregulation.org](mailto:info@pharmacyregulation.org)

 [@TheGPhC](https://twitter.com/TheGPhC)  
 [TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)  
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)  
[www.pharmacyregulation.org](http://www.pharmacyregulation.org)